# SUT DDYLAI TRAETHAWD EDRYCH?

"Dywedwch wrthynt yr hyn rydych yn mynd i'w ddweud wrthynt, ei ddweud, ac yna dweud wrthynt yr hyn a ddywedasoch wrthynt."

Bydd eich darllenydd eisiau gwybod i ble maen nhw'n mynd, a sut mae'r syniadau'n cyd-blethu.

Mae'n gweithio o'r cyffredinol i'r penodol

O'r tu allan i'r tu mewn

O'r mawr at y bach

Defnyddiwch baragraffau i roi fframwaith i'ch gwaith

Defnyddiwch frawddegau am y pwnc i agor eich paragraffau

Rheolau'r fawd yw'r rhain - ar gyfer arweiniad yn hytrach nag i lynu atynt yn llym - mae'n rhaid i chi ddewis sut y byddwch yn defnyddio eich testun i gyflwyno eich dadl.

| | |
|---|---|
| **Rhagarweiniad**<br>(6-20%) | ❖ Dechreuwch gyda brawddeg gyffredinol – gosodwch eich dadl mewn darlun ehangach<br>❖ Dehongli'r cwestiwn - a pham y gallai'r dull hwn fod yn ddefnyddiol<br>❖ Nodwch eich dadl – datganiad o'ch gosodiad<br>❖ Diffiniwch / dosbarthwch gysyniadau allweddol<br>❖ Mae'n gosod map o'ch ateb<br>❖ Mae'n cymell y darllenydd i ddarllen ymlaen |
| **Corff**<br>( ~ 80%) | ❖ Mae'n cyfiawnhau ac yn datblygu eich dadl<br>• Beth yw eich 'llinell stori'?<br>• Beth sydd angen i'r darllenydd ei wybod i ddilyn pob pwynt?<br>• A ydych wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt?<br>▪ Gwnewch siart llif<br>▪ Gweithiwch am yn ôl o'r casgliad i nodi 'llamau afon' allweddol |

Dewch o hyd i ffordd resymegol o arwain eich darllenydd drwy'r pwyntiau a wnewch fel bod eich casgliad yn gredadwy ac yn argyhoeddiadol.

- Ystyriwch y patrwm y bydd eich dadl yn ei gymryd:
- **Cronolegol**: Gorffennol → Presennol → Dyfodol
- **Dilyniannol**: Trefn naturiol amser, achos → effaith
  Sefyllfa → problem → datrysiad → dadansoddiad,
  Problem → sefyllfa → dadansoddiad → datrysiad

- **Prosesau cylchol**: ystyriwch: eich canolbwynt - pam eich bod yn
  ysgrifennu hyn, beth yw perthnasedd ac amlygrwydd pob rhan o gylch eich dadl? Dechreuwch a gorffen gyda'r pwysicaf.

- **Cymharwch a Chyferbynnwch**

**Syniad 1** | **Syniad 2**
Pwynt 1 | Pwynt 1
↓ | ↓
Pwynt 2 | Pwynt 2
↓ | ↓
Pwynt 3 | Pwynt 3
↓ | ↓
Pwynt 4 | Pwynt 4

NEU

**Syniad 1** | **Syniad 2**
Pwynt 1 | Pwynt 1
Pwynt 2 | Pwynt 2
Pwynt 3 | Pwynt 3
Pwynt 4 | Pwynt 4

| | |
|---|---|
| | ▪ Ystyriwch ar bob adeg: Pa mor argyhoeddiadol yw hyn - yn ddeallusol ac yn rhesymegol<br>▪ Meddyliwch: Perthnasedd, pwysigrwydd, eglurder – byddwch yn ddethol |
| **Casgliad**<br>(8 - 15%) | ❖ Mae'n cydglymu'r rhagymadrodd a'r corff<br>❖ Mae'n crynhoi'r pwynt allweddol ac yn tynnu prif bwyntiau eich dadl ynghyd.<br>❖ Mae'n cynnig ateb i'ch cwestiwn.<br><br>Gall gynnwys materion damcaniaethol neu gymhwysol – presennol neu yn y dyfodol<br><br>Ni ddylai gynnwys pwyntiau allweddol newydd. |